

Archwilio
Hindwâeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan

Phillip Vernon



Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio Hindwaeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
 - Archwilio Hindwâeth
 - Archwilio Bwdhaeth
 - Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2008 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.




I Ymweld â mandir

Roedd Rhys a Sara yn sefyll y tu allan i adeilad brics coch, mawr. O'r tu allan, doedd yr adeilad ddim yn edrych yn wahanol i unrhyw adeilad brics coch arall. Ond roedd Rhys a Sara yn gwybod fod rhywbeth pwysig ar fin digwydd y tu mewn iddo. Roedden nhw'n gwylio nifer fawr o bobl yn cerdded heibio iddyn nhw i mewn i'r adeilad. Chwiliodd Rhys a Sara yn ddyfal am eu ffrindiau, Rajeev a Meena.

Hindwïaid oedd Rajeev a Meena, ac roedden nhw'n mynd i'r un ysgol â Rhys a Sara. Heddiw, roedd Rajeev a Meena wedi addo mynd â Rhys a Sara i wasanaeth puja yn eu Teml Hindwïaidd. Roedden nhw'n galw'r deml yn mandir.

'Rydyn ni'n falch eich bod chi wedi dod!' meddai llais cyfeillgar o'r tu ôl i Rhys a Sara. Trodd y ddau a chyfarch eu ffrindiau, Rajeev a Meena.


'Mae'r mandir yma'n lle arbennig i ni,' meddai Rajeev. 'Edrychwch ar y wal! Allwch chi weld y symbol sanctaidd, OM, wedi'i ysgrifennu mewn Sanskrit? Fe welwch chi'r OM y tu mewn i'r adeilad hefyd. Mae hwn yn symbol o Dduw, sef yr Ysbryd Goruchaf. Lle i'r Hindwïaid ddod i addoli Duw yw'r mandir. Mae hefyd yn lle da i gwrdd â Hindwïaid eraill sy'n byw'n lleol.'



Wrth iddyn nhw fynd i mewn i'r adeilad, tynnodd y plant eu hesgidiau a'u rhoi ar resel esgidiau. Yna, fe wnaethon nhw olchi'u dwylo.

Arweiniodd Rajeev a Meena eu ffrindiau, Rhys a Sara, i ystafell fawr. Syllodd Rhys a Sara mewn syndod ar yr hyn welson nhw. O'u cwmpas roedd allorau lliwgar gyda lluniau a cherfluniau arnyn nhw. Roedd pob allor wedi'i haddurno'n gain â goleuadau a thinsel ac addurniadau disglair eraill. Ar yr allorau hefyd roedd bwyd ac arian wedi'u gosod fel offrwm.

Cyflwynodd Rajeev a Meena rai o'r lluniau a'r cerfluniau oedd ar yr allorau i Rhys a Sara. 'Dyma ddelweddau o'n duwiau a'n duwiesau,' eglurodd Meena. 'Dyma'r duw Ganesh a'r duw Shiva. Draw acw, mae'r dduwies Durga a'r dduwies Lakshmi. Mae'r holl ddelweddau wedi'u bendithio, felly rydyn ni'n credu fod Duw yn bresennol ynddyn nhw.'



‘Dydw i ddim yn deall yn iawn,’ cyfaddefodd Rhys, gan edrych ar y duwiau a’r duwiesau mewn penbleth. ‘Rydych chi’n dweud eich bod chi’n addoli Duw, sef yr Ysbryd Goruchaf. Nawr, rydych chi’n dweud fod gennych chi nifer o wahanol dduwiau a duwiesau.’


Gwenodd Meena a dweud, ‘Mae llawer o bobl yn methu deall beth mae’r Hindwïaid yn ei olygu pan fyddan nhw’n siarad am Dduw. Ond mae darn yn ein llyfr arbennig ni yn dweud bod Hindwïaid yn credu ei bod hi’n bosib addoli Duw, sef yr Ysbryd Goruchaf, mewn gwahanol ffurfiau. Fe allwch chi weld rhai o’r ffurfiau yma yn y duwiau a’r duwiesau sydd o’ch cwmpas chi, ond mae yna lawer mwy na hyn. Mae Hindwïaid yn aml yn dewis canolbwyntio ar un neu fwy o’r ffurfiau yma wrth addoli.’



Canodd yr offeiriad gloch, oedd yn cyhoeddi fod y gwasanaeth puja ar fin dechrau. Trodd pawb i wynebu'r brif allor a gwranddo ar yr offeiriad yn adrodd gweddi mewn iaith doedd Rhys a Sara ddim yn ei deall.

Offrymodd yr offeiriad arogldarth, blodau, ffrwythau, cnau, a dŵr, i Dduw. Fe oleuodd lamp arti, oedd â phump o fflamau'n cynnau arni, ac offrymu tân i Dduw. Ar ôl chwifio'r fflamau dros y brif allor, aeth yr offeiriad a gwneud yr un peth dros bob un o'r allorau eraill yn eu tro. Erbyn hyn, roedd pawb yn canu bhajans yn frwdfrydig, ac roedd rhai yn taro symbalau, drwm, a thambwrîn.

'Pan fyddwn ni'n cyflwyno offrwm puja ac yn canu, rydyn ni'n dangos ein cariad at Dduw a'n hymroddiad i Dduw,' eglurodd Rajeev.



Wedi i'r offeiriad fynd â'r lamp arti at bob un o'r allorau, fe offrymodd y tân i bob un oedd yno yn ei dro. Gwylodd Rhys a Sara fel roedd Rajeev a Meena yn estyn eu dwylo dros y fflam, ac yna'n cyffwrdd yn ysgafn â'u hwynebau a'u gwallt.

Ar ddiwedd y gwasanaeth, cafodd y ffrwythau a'r cnau oedd wedi'u hoffrymu i Dduw, eu rhannu rhwng pawb. Yr enw ar y bwyd yma yw prashad.

'Pan fyddwn ni'n derbyn y tân a'r bwyd sydd wedi'i offrymu i Dduw, rydyn ni'n derbyn cariad a bendith Duw,' eglurodd Meena.

Teimlai Rhys a Sara eu bod yn adnabod Rajeev a Meena ychydig yn well ar ôl bod gyda nhw yn ymweld â'r mandir. Roedden nhw wedi dysgu fod llawer o Hindŵiaid yn addoli Duw sef yr Ysbryd Goruchaf, ond ei bod hi'n bosib addoli Duw ar sawl ffurf wahanol. Mewn gwasanaeth puja, mae Hindŵiaid yn dangos eu cariad at Dduw a'u hymroddiad i Dduw, ac maen nhw'n derbyn cariad a bendith Duw.





2 Dathlu Diwali

Roedd Rhys a Sara wedi edrych ymlaen at y diwrnod yma ers wythnosau. Roedd gŵyl bum niwrnod yr Hindŵiaid, sef Diwali, wedi dechrau ac roedd eu ffrindiau, Rajeev a Meena eisiau i Rhys a Sara ymuno â nhw yn y dathliadau.


Aeth nain Rajeev a Meena â nhw at allor arbennig yn y Deml Hindŵaidd leol.

‘Mae stori Diwali am y cymeriadau sydd ar yr allor yma,’ meddai. ‘Stori yw hi am y da yn trechu’r drwg, a goleuni yn trechu tywyllwch. Mae’n stori sy’n ymwneud ag anrhydedd, ffyddlondeb, a chariad.’

Ymhell yn ôl, roedd hen frenin da yn rheoli’r Deyrnas Indiaidd, Ayodhara. Fe ofynnodd y brenin i’w fab hynaf, Rama, reoli’r deyrnas yn ei le. Roedd hyn wrth fodd pawb ar wahân i un o wragedd y brenin. Roedd hi’n awyddus i’w mab hi, Bharata, reoli’r deyrnas, nid Rama. Yn gyfrwys iawn, fe aeth hi at y brenin a’i atgoffa ei fod wedi addo dau ddymuniad iddi.

‘Fy nymuniad cyntaf yw bod fy mab, Bharata, yn cael bod yn frenin,’ meddai. ‘Fy ail ddymuniad yw bod Rama yn cael ei alltudio i’r goedwig am bedair blynedd ar ddeg.’


Er ei fod yn anfodlon iawn, fe gytunodd y brenin. Doedd e ddim yn gallu torri ei air. Felly, anfonwyd Rama i fyw yn y goedwig. Mynnodd ei wraig brydferth, Sita a’i frawd Laksmana, fynd gyda Rama. Pan fu farw’r hen frenin, gofynnodd Bharata i Rama ddod yn ei ôl o’r goedwig, i fod yn frenin. Ond gwrthododd Rama am nad oedd pedair blynedd ar ddeg wedi mynd heibio. Felly, fe osododd Bharata sandalau Rama ar yr orsedd gan addo gofalu am y deyrnas nes deuai Rama yn ei ôl.



Roedd y goedwig yn lle peryglus. Roedd y diafol drwg, Ravana, oedd â deg braich a deg pen, eisiau Sita yn wraig iddo'i hun. Un diwrnod chwaraeodd Ravana dric ar Rama a Laksmana, fel bod Sita wedi'i gadael ar ei phen ei hun. Cipiodd Sita a mynd â hi i'w balas. Ond gwrthodai Sita briodi Ravana.

Roedd Rama a Laksmana yn drist iawn, iawn, ac fe fuon nhw'n chwilio amdani ym mhob man. Fe helpodd Hanuman, Brenin y mwncïod, y ddau ac fe ddaeth y mwncïod o hyd i Sita ar ynys Lanka. Fe fuon nhw'n brwydro am ddeg diwrnod i'w hachub hi. Defnyddiodd Rama fwa a saeth arbennig i saethu Ravana, a'i ladd.

Yn fuddugoliaethus, teithiodd Rama, Sita, a Laksmana yn ôl i Deyrnas Ayodhara. Goleuodd pobl Ayodhara lampau o'r enw divas i'w harwain yn ôl adref yn ddiogel. Trefnodd Bharata ddathliad mawr, a chroesawodd Rama yn ôl adref i fod yn frenin arnyn nhw.




‘Ystyr Diwali yw clwstwr o oleuadau,’ meddai nain Rajeev a Meena. ‘Yn ystod Diwali, rydyn ni’n goleuo divas ac yn llenwi ein cartrefi a’n hadeiladau â goleuni. Rydyn ni’n trefnu arddangosfeydd tân gwyllt sy’n ein hatgoffa ni o’r arfau gafodd eu defnyddio i ddinistrio drygioni mewn hen frwydrau. Mae Diwali yn dathlu buddugoliaeth y da dros y drwg.’

Wrth fynd yn ôl i gartref Rajeev a Meena, gwelodd Rhys a Sara batrwm lliwgar yn yr ardd yn ymyl y drws ffrynt, a’i edmygu.

‘Dyma ein patrwm rangoli ar gyfer Diwali,’ meddai Meena, yn falch. ‘Mae wedi cymryd oriau i ni ei wneud. Fe fyddwn ni’n defnyddio blawd, gronynnau reis, neu bowdwr sialc lliw i wneud patrymau rangoli.’

‘Mae’n hynod o hardd,’ meddai Sara. ‘Gobeithio na ddaw’r glaw i’w ddifetha.’

Cododd Rajeev ei ysgwyddau a dweud, ‘Dydi’r patrwm ddim i fod bara am byth. Mae yno i groesawu ymwelwyr, a hefyd i groesawu’r dduwies Lakshmi sy’n ymweld â phob tŷ yn ystod Diwali.’



Y tu mewn i gartref Rajeev a Meena, sylwodd Rhys a Sara fod yno arogl paent cryf yn llenwi'r lle. Sylwodd y ddau hefyd fod pob man yn edrych yn hynod o lân a thaclus.

'Rydyn ni wedi bod yn helpu ein rhieni i lanhau a phaentio'r tŷ,' meddai Meena. 'Mae'r dduwies Lakshmi yn hoffi tai glân a thaclus. Rydyn ni'n gobeithio y bydd Lakshmi yn rhoi lwc dda a chyfoeth i'n teulu ni yn y flwyddyn newydd sydd o'n blaenau.'


Estynnodd Rajeev lun o Lakshmi i'w ddangos iddyn nhw. Meddyliodd Sara fod Lakshmi yn edrych yn hardd a charedig. Hoffai Rhys yr eliffant gwyn oedd yn sefyll yn ymyl Lakshmi yn y llun, a'r darnau arian oedd yn arllwys o gledr llaw Lakshmi.



Helpodd mam Rajeev a Meena y plant i wneud melysion Indiaidd ar gyfer Diwali. Roedd rhai o'r melysion yn cael eu gosod mewn bocsys bach i'w rhoi'n anrhegion, ac roedd y lleill iddyn nhw'u hunain, i'w bwyta. Yn ddiweddarach, daeth perthnasau Rajeev a Meena i'r tŷ i rannu pryd bwyd arbennig y Diwali. Gwylodd Rhys a Sara y teulu cyfan yn rhoi cardiau ac anrhegion i'w gilydd.

'Amser i deuluoedd ddod ynghyd yw Diwali,' meddai Rajeev. 'Rydyn ni'n ceisio anghofio am unrhyw ddadleuon neu broblemau, ac rydyn ni'n ceisio bod yn hapus.'

Roedd Rhys a Sara wedi mwynhau dathlu Diwali gyda'u ffrindiau, Rajeev a Meena. Roedden nhw'n deall mai dathlu buddugoliaeth y da dros y drwg y mae Diwali. Mae Diwali hefyd yn nodi dechrau Blwyddyn Newydd yr Hindŵiaid. Felly, mae llawer o'r Hindŵiaid yn gobeithio y bydd y dduwies Lakshmi'n bendithio'u cartrefi â lwc dda yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae Diwali yn amser hapus pryd mae teuluoedd yn gallu mwynhau bod gyda'i gilydd.





3 Rhai llyfrau arbennig

Roedd hi'n Ddiwrnod Llyfrau'r Byd, ac roedd dosbarth Rhys a dosbarth Sara wedi dod at ei gilydd i'r plant gael rhoi eu barn ar rai o'u hoff lyfrau.

Hoff lyfr Sara oedd gwyddoniadur mawr i blant.

'Mae'r gwyddoniadur yma'n arbennig i mi am ei fod yn egluro sut mae pethau'n gweithio,' meddai Sara. 'Os ydw i eisiau gwybod sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu, neu pam fod lafa yn llifo allan o losgfynddoedd, neu unrhyw gwestiwn arall tebyg, rydw i'n gwybod fod yr ateb i'w gael yn y llyfr yma.'

Hoff lyfr Rhys ar y pryd oedd llyfr stori yr oedd newydd orffen ei ddarllen.

'Fe wnes i fwynhau darllen y stori yma am fod llawer o bethau cyffrous yn digwydd ynddi,' meddai Rhys. 'Prif gymeriad y llyfr yw bachgen sy'n dod o hyd i hen fap yn atig tŷ ei nain. Mae'r map yn arwain y bachgen ar sawl antur sy'n datgelu iddo rai cyfrinachau cudd am un o deuluoedd y pentref. Rydw i'n meddwl y gwna i ddarllen y llyfr yma eto, ac eto!'

Dangosodd rhywun arall lyfr i'r lleill oedd yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i wneud awyrennau papur. Roedd un arall o'r plant wedi dod ag atlas i'w ddangos, oedd yn cynnwys mapiau o wledydd y byd.

Pan ddaeth tro Rajeev a Meena, fe wnaethon nhw ddangos llyfr arbennig i'r dosbarth, llyfr o'r enw Bhagavad Gita.

'Mae'r Bhagavad Gita yn llyfr arbennig i lawer o Hindŵiaid fel ni,' meddai Rajeev. 'Mae'r Bhagavad Gita yn ein dysgu am gariad Duw tuag atom ni, ac am sut y gallwn ni garu a gwasanaethu Duw.'



Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, roedd Rhys a Sara yn cerdded adref o'r ysgol gyda Rajeev a Meena.

'Dywedwch fwy wrthym ni am eich llyfr arbennig chi,' meddai Sara. 'Pa fath o lyfr yw'r Bhagavad Gita?'

'Cerdd hir iawn yw'r llyfr,' atebodd Meena. 'Mae'n cofnodi sgwrs rhwng saethwr o'r enw Arjuna a Krishna, ei gerbydwr.' Eglurodd Meena i Rhys a Sara beth oedd cynnwys y sgwrs.

Doedd Arjuna ddim eisiau mynd i frwydr ar ddechrau rhyfel mawr. Roedd arno ofn y byddai'n ymladd yn erbyn ei gefndryd ac yn eu lladd. Fyddai hynny ddim yn iawn. Ond roedd Krishna'n dadlau ei fod yn ddyletswydd ar ryfelwr i ymladd er mwyn cyfiawnder, ac fe fyddai Arjuna yn gwneud rhywbeth gwaeth felly os byddai'n gwrthod ymladd.

Yna fe ddatgelodd Krishna ei hun i Arjuna. Krishna yw Arglwydd y Bydysawd, yr Ysbryd Goruchaf, a Duw oedd wedi dod i'r byd ar ffurf ddynol.



Mae Krishna yn dysgu tair gwers bwysig i Arjuna. Y wers gyntaf oedd bod gan bawb ddyletswyddau, a bod yn rhaid i bawb wneud y dyletswyddau rheini. Mae gan ryfelwyr ddyletswyddau, mae gan rieni ddyletswyddau, ac mae gan athrawon ddyletswyddau. Mae gan bawb ddyletswyddau.

Yr ail wers oedd na ddylai pobl ddisgwyl gwobr am y pethau maen nhw'n eu gwneud. Fe ddylen nhw wneud pethau am mai dyna yw'r pethau iawn i'w gwneud, ac am eu bod yn caru Duw.

Y drydedd wers oedd y dylai pobl ganolbwyntio'u hymdrechion a'u hegri ar addoli Duw trwy gariad ac ymroddiad. Mae deall y tair gwers yma'n arwain at wir hapusrwydd.

'Mae'r gwersi yma yn dal yn bwysig iawn i lawer o Hindŵiaid hyd heddiw,' meddai Meena.

'Felly, wnaeth Arjuna fynd i'r frwydr?' holodd Rhys, yn awyddus i glywed diwedd y stori.

Do,' atebodd Meena. 'Fe aeth Arjuna i'r frwydr. Roedd wedi deall tair gwers Krishna.'



‘Mae gan Hindwïaid nifer o lyfrau arbennig eraill hefyd, yn ogystal â'r Bhagavad Gita,’ meddai Rajeev. ‘Rhai o fy ffefrynnau i yw'r chwedlau Hindwïaidd mawr am y duwiau a'r duwiesau. Os dewch chi i wers ddawnsio Meena, fe gewch chi wybod mwy am y rhain.’

Yng ngwers ddawnsio Meena, fe welodd Rhys a Sara fath o ddawns doedden nhw erioed wedi'i gweld o'r blaen. Roedd Meena a'r dawnsywyr eraill yn defnyddio'u hwynebau, eu gyddfau, a'u dwylo, yn ogystal â gweddill eu cyrff, wrth ddawnsio i'r gerddoriaeth.

‘O Dde India y daw'r math yma o ddawnsio,’ meddai Rajeev. ‘Trwy ddawnsio a meimio, mae'r dawnsywyr yn ail adrodd y chwedlau Hindwïaidd mawr. Mae'r math yma o ddawnsio yn hen iawn. Mae sôn amdano mewn llyfr ar ddawns a drama oedd yn bod tua dwy fil o flynyddoedd yn ôl.’



Eglurodd Rajeev fod dawnswyr eisiau gwneud mwy na dim ond difyrru pobl ac ail adrodd storïau Hindŵaidd. Trwy ddawnsio, maen nhw'n dangos eu cariad at Dduw, a'u hymroddiad i Dduw. Mae hyn yn golygu eu bod yn addoli Duw wrth iddyn nhw ddawnsio.

Roedd Rhys a Sara wedi dysgu rhai pethau newydd am eu ffrindiau, Rajeev a Meena. Nawr, roedden nhw'n gwybod fod gan Hindŵiaid nifer o lyfrau arbennig, ond yng ngolwg teulu Rajeev a Meena, mae'r Bhagavad Gita yn neilltuol o arbennig. Mae'r Bhagavad Gita yn eu dysgu am ystyr dyletswydd, a'r ffordd o addoli Duw trwy gariad ac ymroddiad. Dysgodd Rhys a Sara hefyd fod llawer o Hindŵiaid yn mwynhau'r chwedlau Hindŵaidd mawr am y duwiau a'r duwiesau. Mae dawnsio'r storïau yma yn ffordd arall eto o addoli Duw.





4 Gofalu am eraill a gofalu am y byd

Roedd Rhys a Sara yn reidio'u beiciau yn y stryd gyda'u ffrindiau, Rajeev a Meena. Fe glywsom nhw sŵn rhywun yn chwerthin ac yn gwichian, ac fe aethon nhw draw i weld beth oedd yn digwydd yno. Mewn gardd tŷ yn ymyl cartref Rhys a Sara, roedd eu cymydog bach chwech oed, Bili, gyda rhai o'i ffrindiau yn gylch ar eu cwrcwd yn edrych ar rywbeth.

'Sathra hi! Cyn iddi hi ddianc!' gwaeddodd un plentyn gan brocio rhywbeth â ffon.

'Cadwch hi draw oddi wrtha i!' gwichiodd un arall, gan neidio i fyny ac i lawr.


Daeth Rajeev oddi ar ei feic a cherddodd at y plant ifanc.

'Beth sy'n mynd ymlaen yma?' holodd yn chwyrn.

Camodd y plant yn ôl a gwelodd Rajeev beth oedd yn mynd â'u bryd. Roedd Bili a'i ffrindiau wedi rowlio carreg ac wedi dod o hyd i chwilen ddu fawr oddi tani. Roedd y chwilen yn ceisio dianc am ei bywyd.

'Dim ond chwilen oedd hi,' atebodd Bili, yn bwdlyd. 'A nawr mae hi wedi dianc.'

'Da iawn,' meddai Rajeev. 'Mae'n beth drwg iawn niweidio neu ladd unrhyw greadur byw, yn enwedig os ydych chi'n gwneud hynny'n fwriadol. Fe allet ti fod wedi cael dy eni'n chwilen yn hytrach nag yn fachgen bach. Dychmyga sut roedd y chwilen yn teimlo. Mae gan y chwilen gymaint o hawl i fyw â thithau.'



Ar ôl i hyn ddigwydd, eglurodd Rajeev i Rhys a Sara pam roedd yn rhaid iddo rwystro Bili a'i ffrindiau rhag lladd y chwilen.

'Hindwïaid yw Meena a minnau,' meddai Rajeev. 'Mae llawer o Hindwïaid yn credu ei fod yn beth drwg niweidio neu ladd creaduriaid byw. Mae dau reswm pam rydyn ni'n credu hynny. Y rheswm cyntaf yw bod Hindwïaid yn credu bod pob creadur byw yn arbennig. Mae hyn oherwydd bod gan bob creadur byw enaid i tu mewn iddo. Pan fydd y corff yn marw, mae'r enaid yn symud i gorff newydd. Mae hyn yn digwydd dro ar ôl tro ar ôl tro. Mae pawb yn mynd trwy nifer o gyrff, ac nid cyrff dynol yn unig! Dyma pam y mae llawer o Hindwïaid yn parchu pob ffurf o fywyd.'

'Felly, nid chwilen yn unig yw chwilen,' meddai Rhys, yn feddylgar.



‘Yn union,’ meddai Rajeev. ‘Yr ail reswm yw bod Hindwïaid yn credu mai Duw sydd wedi creu’r bydysawd a phopeth sydd ynddo. Mae gan bopeth reolau i’w dilyn er mwyn i’r byd allu gweithio’n iawn. Rhaid i’r afon lifo i’r môr, rhaid i’r haul roi goleuni a gwres i’r Ddaear, rhaid i blanhigyn dyfu i roi bwyd i greaduriaid eraill. Mae popeth yn dilyn ei reolau ei hun, ac os nad yw’n gwneud hynny, mae pethau’n mynd yn anhrefnus.’

Cytunodd Meena’n frwdfrydig gan nodio’i phen.

‘Mae bodau dynol yn gallu achosi anhrefn,’ meddai. ‘Mae hyn am fod bodau dynol yn ddigon deallus i ddewis a ydyn nhw am ddilyn y rheolau ai peidio.’

Rholiodd Rajeev y garreg yn ôl i’w lle yn ofalus gan ddweud, ‘Roedd Bili a’i ffrindiau mewn perygl o dorri’r rheol bwysig o barchu bywyd anifeiliaid. Dyna pam y gwnes i eu rhwystro nhw rhag lladd y chwilen.’



‘Ond plant bach yw Bili a’i ffrindiau,’ meddai Meena. ‘Pan fydd oedolion yn torri’r rheolau, mae’n llawer mwy difrifol. Mae stori wir am bobl gafodd eu galw’n gofleidwyr coed, sy’n helpu i egluro pam fod hyn yn beth difrifol.’

Dros dri deg o flynyddoedd yn ôl, cafodd cwmnïau mawr ganiatâd i dorri coed mewn rhannau o’r goedwig ar fynyddoedd yr Himalayas. Fe wnaeth y cwmnïau yma arian mawr iddyn nhw’u hunain trwy werthu’r coed. Doedden nhw ddim yn meddwl am y problemau roedden nhw’n eu hachosi yn yr ardal. Roedd y bobl leol yn dibynnu ar y coed am eu bwyd a’u tanwydd, ac roedd hyn dan fygythiad. Roedd y coed yn bwysig i’r amgylchedd, ac roedd yr amgylchedd yn cael ei ddfrodi.

Yn 1973, cytunodd grŵp o ferched lleol fod yn rhaid iddyn nhw wneud rhywbeth i atal y difrod yma. Fe wnaethon nhw benderfynu na fydden nhw’n difetha dim trwy drais, fel roedd y cwmnïau yn ei wneud. Yn lle hynny, fe fydden nhw’n cynnal protest heddychol.



Felly, fe roddodd y merched eu breichiau am y coed oedd dan fgythiad, a'u cofleidio. Fe fyddai'n rhaid i'r cwmnïau dorri'r merched i lawr cyn y gallen nhw dorri'r coed! Fe fu'r merched yn llwyddiannus, ac fe ddaeth y torri coed i ben. Ar ôl hynny, mae llawer o Indiaid cyffredin wedi gwneud yr un peth i arbed eu bywoliaeth a'u hamgylchedd.

Teimlai Rhys a Sara eu bod yn gwybod ychydig mwy am eu ffrindiau, Rajeev a Meena. Roedden nhw'n deall fod llawer o Hindŵiaid yn credu nad yw'n iawn niweidio na lladd creaduriaid byw eraill. Mae gan bob peth byw enaid, ac mae gan bob peth byw ddyletswyddau i'w cyflawni. Mae'n ddyletswydd ar fodau dynol i ofalu am eraill ac am yr amgylchfyd. Mae llawer o boen a dioddefaint yn cael ei achosi pan fydd pobl yn anghofio hyn ac yn meddwl am ddim ond eu hanghenion eu hunain.





5 Bwyd

Roedd Rhys a Sara yn eistedd wrth fwrdd mawr crwn, ac roedd chwant bwyd arnyn nhw. Roedden nhw wedi cael gwahoddiad i rannu pryd o fwyd gyda'u ffrindiau, Rajeev a Meena a'u teulu.

Roedd mam Rajeev a Meena wedi paratoi amrywiaeth o fwydydd Indiaidd i Rhys a Sara eu blasu. Ar ganol y bwrdd roedd amrywiaeth o fwydydd wedi'u gwneud â reis a llysiau, ynghyd â bara naan a bara chapatti. Estynnodd pawb at y bwyd.


'Mae ein crefydd ni, Hindŵaeth, yn dod yn wreiddiol o India, ond heddiw mae Hindŵiaid yn byw ym mhob cwr o'r byd,' eglurodd Meena. 'Dyma rai o hoff fwydydd Indiaidd ein teulu ni. Fel llawer o Hindŵiaid, rydyn ni'n llysieuwyr. Dydyn ni ddim yn credu ei bod hi'n iawn lladd anifeiliaid er mwyn i ni gael bwyd. Felly, does dim o'r bwydydd yma, sydd ar y bwrdd, yn cynnwys cig.'

Roedd Rhys a Sara wedi synnu fod bwydydd syml o reis a llysiau yn gallu bod mor flasus. Roedd llysiau, iddyn nhw yn bethau i'w bwyta gyda phrif saig o gig neu bysgodyn, fel rheol. Anaml iawn y bydden nhw'n bwyta llysiau'n unig.

'Rydyn ni'n defnyddio llawer o wahanol sbeisiau yn ein bwydydd, sy'n rhoi'r blas diddorol arnyn nhw,' eglurodd mam Rajeev a Meena. Fe ddangosodd i Rhys a Sara rai cynhwysion oedd yn anghyfarwydd iddyn nhw, pethau fel garam masala, sinsir, cwmin, hadau ffenigrig, hadau mwstard, hadau coriander, chilli, pupurau, a thyrmerig.



‘Dydi pob Hindw ddim yn llysieuwyr fel ni, ond mae’r rhan fwyaf o Hindwiaid yn gwrthod niweidio na lladd gwartheg a bwyta’u cig,’ meddai Rajeev. ‘Mae hyn oherwydd bod Hindwiaid yn credu bod gwartheg yn anifeiliaid arbennig iawn. Yn draddodiadol, yn India, mae gwartheg wedi bod yn anifeiliaid pwysig wrth ffermio, wrth gynhyrchu bwyd, ac ynglŷn â chludiant. Mae’r fuwch yn rhoi llefrith, a’r holl bethau eraill y mae’n bosib eu cynhyrchu o lefrith. Fe fyddai’r ychen yn aredig y tir ac yn tynnu trol neu gert. Mae Hindwiaid yn credu ei fod yn beth drwg niweidio anifail sy’n rhoi cymaint i ni. Mewn rhai rhannau o India, mae lladd gwartheg yn beth anghyfreithlon!’



Pwysleisiodd tad Rajeev a Meena fod gwartheg yn arbennig mewn Hindŵaeth am resymau crefyddol hefyd. Fe ddangosodd i Rhys a Sara, lamp oedd wrth allor fach lle'r oedd y teulu'n addoli Duw bob bore.

'Rydyn ni'n goleuo'r lamp arti yma fel rhan o'n haddoliad,' meddai. 'Mae'r lamp yn llosgi ymenyn gloyw sef ghee, nid cwyr fel kannwyll. Saim gloyw yw ghee, wedi'i wneud o fenyn, sydd wedi'i wneud o lefrith y fuwch.'

Yna, dangosodd tad Rajeev a Meena lun i Rhys a Sara o Krishna a Radha.

'Dyma Dduw ar ffurf ddynol, Krishna,' eglurodd. 'Pan fyddwn ni'n meddwl am Krishna, rydyn ni'n aml yn meddwl am wartheg. Mae Krishna yn reidio ar gefn llo gwyn, ac yn sefyll yn ei ymyl mae ei hoff fugeiles wartheg, Radha. Mae Radha yn caru Krishna ac yn ymroddi ei hun yn llwyr iddo, ac mae Krishna yn caru Radha. Gyda'i gilydd, maen nhw'n symbol o'r berthynas berffaith rhwng Duw a bod dynol.'



Ar ôl swper, bu'r pedwar plentyn yn chwarae gêm fwrdd. Roedd yn rhaid iddyn nhw ateb cwestiynau gwybodaeth gyffredinol, a Meena oedd ar y blaen.

'Rydw i'n teimlo'n llawer gwell ar ôl bwyta,' meddai Meena, yn fodlon. 'Rydw i'n gallu canolbwyntio'n well. Efallai mai fi fydd yn ennill y gêm.'

Meddyliodd Rajeev am foment, a chofiodd rywbeth.

'Mae llawer o Hindwïaid yn credu bod y math o fwyd rydyn ni'n ei fwyta yn effeithio ar ein cyrff a'n meddyliau,' meddai. 'Mae rhai bwydydd yn gwneud i ni deimlo'n farwaidd, yn swrth, a diegni. Mae bwydydd eraill yn gallu gwneud i ni deimlo'n gynhyrfus a llawn cyffro. Ac mae yna rai bwydydd sy'n gwneud i ni deimlo'n hapus ac yn iach, yn ogystal ag yn rhoi oes hir i ni. Mae llawer o Hindwïaid yn credu mai'r math yma o fwydydd llysieuol, gawsom ni i'w fwyta heno, yw'r diet gorau.'



Y noson honno, roedd Rhys a Sara wedi dysgu llawer am eu ffrindiau, Rajeev a Meena. Roedden nhw nawr yn gwybod fod bwyta yn golygu mwy i lawer o Hindŵiaid na dim ond llenwi eu stumogau a chadw'u hunain yn fyw. Yn aml, mae Hindŵiaid yn llysieuwyr am eu bod yn credu ei fod yn beth drwg lladd anifeiliaid er mwyn cael bwyd. Maen nhw'n credu hefyd fod yr hyn mae pobl yn ei fwyta yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn teimlo ac yn meddwl, yn ogystal ag ar eu hiechyd. Mae gwartheg yn neilltuol o bwysig gan Hindŵiaid am eu bod yn anifeiliaid mor ddefnyddiol, ac maen nhw hefyd yn gysylltiedig â Krishna.

Ar eu ffordd adref, teimlai Rhys a Sara y bydden nhw'n hoffi rhannu rhai o'u pethau arbennig hwythau gyda Rajeev a Meena. Nawr, beth fydden nhw'n ei ddewis yn gyntaf?



Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind yn eu hysgol sy'n Hindŵiaid. Eu henwau yw Rajeev a Meena. Mae Rajeev a Meena yn mynd â Rhys a Sara i deml Hindŵaidd, ac mae'r ddau yn rhyfeddu wrth weld ystafell yn llawn cerfluniau hardd o dduwiau a duwiesau.

Pwy yw'r duwiau a duwiesau hyn, a beth yw eu hanes?

Pa wersi sydd i'w dysgu o hanes y saethwr, Arjuna, a'i gerbydwr, Krishna?

A pham y mae pobl yn cofleidio coed?

Dim ond rhai o'r cwestiynau sydd angen eu hateb yw'r rhain.

